**CYNGOR CAERDYDD**

COFNODION

# CYFARFOD Y CABINET: 19 EBRIL 2018

| | |
|---|---|
| Aelodau Cabinet yn Bresennol: | Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)<br>Y Cynghorydd Peter Bradbury<br>Y Cynghorydd Susan Elsmore<br>Y Cynghorydd Russell Goodway<br>Y Cynghorydd Graham Hinchey<br>Y Cynghorydd Sarah Merry<br>Y Cynghorydd Michael Michael<br>Y Cynghorydd Lynda Thorne<br>Y Cynghorydd Christopher Weaver<br>Y Cynghorydd Caro Wild |
| Gwylwyr: | Y Cynghorydd Joe Boyle<br>Y Cynghorydd Adrian Robson |
| Swyddogion: | Paul Orders, y Prif Weithredwr<br>Christine Salter, Swyddog Adran 151<br>David Marr, ar ran y Swyddog Monitro<br>Joanne Watkins, Swyddfa’r Cabinet |
| Ymddiheuriadau: | |

**COFNODION Y CYFARFOD CABINET A GYNHALIWYD AR 15 MAWRTH & 28 MAWRTH 2018**

**PENDERFYNWYD:** bod cofnodion y cyfarfodydd Cabinet a gynhaliwyd ar 15 a 28 Mawrth yn cael eu cymeradwyo.

**RHWYDWAITH GWRES CAERDYDD: CYMERADWYO ACHOS BUSNES AMLINELLOL AR GYFER RHWYDWAITH GWRES CAERDYDD**

**Eithrir atodiadau C a D rhag cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth yn unol â pharagraffau 14 a 21 a pharagraff 16 atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn cynnwys canlyniad astudiaeth o ddichonoldeb manwl ac Achos Busnes Amlinellol ar Rwydweithiau Gwres Rhanbarth yng Nghaerdydd ynghyd â manylion ar y rhwydwaith arfaethedig a’r camau nesaf angenrheidiol i sicrhau'r cyllid perthnasol.

**PENDERFYNWYD:**

1. cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Rhwydwaith Gwres Caerdydd mewn egwyddor, ac awdurdodi'r gwaith o ddatblygu Achos Busnes Terfynol ymhellach i'r Cabinet ei gymeradwyo yn amodol ar sicrhau'r cyllid priodol fel y nodir yn yr adroddiad.

2. Awdurdodi'r tîm projectau i barhau gyda'r ceisiadau am grantiau o ran HNDU a HNIP fel y nodir yn yr adroddiad.

3. Awdurdodi'r tîm projectau i ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid y cyfeirir atynt yn yr adroddiad;

4. Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Strydoedd Glan, Ailgylchu a'r Amgylchedd a'r Swyddog A151 a'r Swyddog Monitro i (i) gwblhau'r strategaeth gaffael a dechrau caffael contractwr Dylunio, Adeiladu, Gweithredu a Chynnal (DAGC) ar gyfer y project, yn gyffredinol ddelio gyda'r holl agweddau ar y project a gwobrwyo'r contract DAGC ar ôl i'r Cabinet gymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol a (ii) Cytuno ar fân diwygiadau i'r ABA sydd yn fanteisiol ym marn y Cyfarwyddwr wedi iddo ymgynghori â'r rheiny y cyfeirir atynt uchod er budd y Cyngor ar yr amod y caiff y project ei gyfeirio nôl i'r Cyngor os caiff ei natur ei newid yn sylweddol o'r hyn wedi'i nodi yn y ABA.

## TRAFNIDIAETH ALLYRIADAU ISEL: STRATEGAETH AR GYFER TANWYDDAU TRAFNIDIAETH GLANACH, GWYRDDACH

Derbyniwyd adroddiad yn cynnwys Strategaeth y Cyngor ar gyfer pontio i drafnidiaeth allyriadau isel yng Nghaerdydd. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau a dyheadau'r Cyngor o ran delio gyda materion ansawdd awyr trwy gefnogi pontio i fwrdd o danwyddau ffosiledig ar gyfer trafnidiaeth. Nodwyd bod dyddiadau targed a manylion am gamau gweithredu allweddol eu cynnwys yn y cynllun gweithredu.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo strategaeth a chamau gweithredu arfaethedig y Cyngor i bontio i drafnidiaeth allyriadau isel yn y Ddinas.

## CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION: GWELLA'R DDARPARIAETH I BLANT A PHOBL IFANC SYDD AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY) 2018-22: ADRODDIAD WEDI YMGYNGHORI

Derbyniodd y Cabinet fanylion am yr ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn ymgynghoriad ar wyth cynnig ar gyfer gwella neu addasu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ledled Caerdydd. Adroddwyd y derbyniwyd 611 o ymatebion ac

roedd y rhain yn yr adroddiad ynghyd â dadansoddiad o'r pwyntiau wedi'u gwneud. Roedd y rhan o'r ymatebion o blaid y cynigion yn gyffredinol, ac eithrio'r cynnig sy'n ymwneud ag ysgol arbennig The Hollies ac felly ni fyddai'r cynnig hwn yn cael ei symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD:**

1. cyhoeddi hysbysiadau statudol ar gyfer y cynlluniau canlynol:

a) ehangu capasiti Tŷ Gwyn i gynnig hyd at 198 o leoedd.

Addasu rhan o adeiladi Canolfan Ieuenctid Trelai, i gynnig tair ystafell ddosbarth newydd ar gyfer Ysgol Ty Gwyn a chysylltu'r adeilad yr ysgol ac adeilad y ganolfan ieuenctid.

b) Estyn ystod oedran Greenhill o 11-16 i 11-19 a chynyddu capasiti'r ysgol i gynnig hyd at 64 lle.

Addasu tŷ' gofalwr nas defnyddir ar y safle i gynnig mwy o le.

c) Newid math yr angen addysgol arbennig y mae Ysgol Meadowbank yn darparu ar ei gyfer o: 'anghenion iaith lleferydd a chyfathrebu'. i: 'anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu ac anableddau dysgu cymhleth'

Addasu'r adeilad i wella mynediad i bobl anabl.

d) Cau'n raddol y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Allensbank, gan gau'r dosbarth yn gyfan gwbl ym mis Gorffennaf 2020, neu pan fo'r holl ddisgyblion presennol wedi cwblhau'r lleoliad cynradd os yw'n gynt na hynny.

Agor dosbarth ymyrraeth gynnar ag 8 lle i blant ag anghenion iaith a lleferydd yn Ysgol Allensbank, gan dderbyn y cohort cyntaf ym mis Medi 2019.

e) Yn amodol ar benderfyniad gan Gorff Llywodraethu Ysgol yr Forwyn Fair, cyhoeddi hysbysiad statudol: cymeradwyo cynnwys adeiladau CAA yng nghynllun Band B ar gyfer adeiladau newydd Ysgol y Forwyn Fair.

f) Agor canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Pwll Coch, gan gynnig hyd at 10 o leoedd i ddechrau, ond gyda sgôp i ehangu i 20 o leoedd yn y dyfodol, wrth i'r galw gynyddu.

g) Estyn nifer y lleoedd yn y CAA yn Ysgol Glantaf i 30 lle.

Addasu a gwella adeiladau i roi lle i'r niferoedd mwy.

2. Nodi cyn rhoi'r cynigion ar waith y bydd adroddiad pellach yn cael ei ddarparu i'r Cabinet yn nodi manylion unrhyw wrthwynebiad a dderbyniwyd, yr ymatebion arfaethedig i'r gwrthwynebiadau hynny ac argymhellion i roi'r cynigion ar waith neu fel arall.

## CYNNIG GOFAL PLANT 30 AWR LLYWODRAETH CYMRU

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu cynnig gofal plant 30 awr Llywodraeth Cymru ar gyfer plant 3 a 4 oed. Cynigiwyd bod Caerdydd yn dod yr Awdurdod Lleol cyntaf i weithredu'r cynnig yn gynnar ac amlinellodd yr adroddiad fanylion dull arfaethedig a rhesymeg dros flaenoriaeth wardiau o ran rhoi'r cynnig ar waith ledled Caerdydd.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo Caerdydd fel Awdurdod Lleol a fydd yn gweithredu'r cynnig gofal plant 30 awr yn gynnar.

2. Cymeradwyo'r ddau resymeg wedi'u nodi ym mharagraffau 17-24 yr adroddiad fel y dull cytunedig o nodi'r wardiau y rhoddir y cynnig ar waith ynddynt, wrth i gyllid ddod ar gael;

3. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Addysg i weithredu'r cynnig trwy ddefnyddio'r ddau resymeg wedi'u nodi ym mharagraffau 17-24 yr adroddiad.

## CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL

Adroddiad yn cynnwys canlyniad ymgynghoriad ar y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) drafft ar Archeoleg ac Ardaloedd sy'n Archeolegol Sensitif ac Effeithiau Rheoli Trafnidiaeth (gan ymgorffori Safonau Parcio). Adroddwyd bod y rhan fwyaf o'r sylwadau a dderbyniwyd yn rhai fân ac o natur technegol ac roedd mân ddiwygiadau wedi'u gwneud i'r CCAau drafft.

**PENDERFYNWYD:** argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r CCA Archeoleg ac Ardaloedd sy'n Archeolegol Sensitif ac Effeithiau Rheoli Trafnidiaeth (gan ymgorffori Safonau Parcio), sydd wedi'i atodi at yr adroddiad hwn.